



Telynegion maes a môr

<https://hdl.handle.net/1874/379606>

TELYNEGION

MAES A MOR.

EIFION WYN.

AMEL
3

VAN HAMEL
483

E DONATIONE
A. G. van HAMEL
PROFESSORIS
ORDINARIII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA
1923—1946

Thomas Herbert Jarry-Williams.


Tyr Segal.


J Rhys Idur.

Llarnarfon.

1906

Mar 12th







EIFION WYN.

Telynegion

Maes

a

Mor.

Eifion Wyn,

*(Awdwr "Ieuenctid y Dydd"
ac "Awdl y Bugail").*

Caernarfon :
Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyl.),
Swyddfa "Cymru."

THE UNIVERSITY OF CHICAGO

LIBRARY

1900

1900

1900

1900

1900

1900


1900

J'm

Cenedl,

Er mwyn

Men.



Rhagymadrodd.

“CESGLWCH eich telynegion y'nghyd. Rhaid i bawb addef yn ddiwarafun na welodd Cymru erioed eu bath.”


GWYLEA,

Mewn llythyr, 1902.

“Yn ol fy marn i, ni ysgrifennwyd yng Nghymru na Ffrainc na'r Almaen, ers blynyddoedd bellach, hafal i'ch telynegion i'r Misoedd.”

W. J. GRUFFYDD,

Mewn llythyr, 1906.




Os rhoed cynneddf arbenig i mi, y gynneddf i ganu yw honno. Na feier fi am ei harfer; nac, ychwaith, am *led-gredu* yn nyfarniad dau o'r un oes ac o'r un ddawn.

Ganwyd fi ym mis blodau a chân; bedyddiwyd fi gan Emrys; mynnwn le yng nghof a serch fy nghenedl fel bardd y telynegion hyn.

Cyhoeddir y llyfr dan ofal Mr. Owen Edwards, noddwr caredicaf llen Cymru.

EIFION WYN.

Mai, 1906.



Cynhwysiad.

I. TELYNEGION BYWYD.

	<i>Tudalen.</i>
Hwiangerdd Sul y Blodau	9
Flower Sunday Lullaby*	11
Llawhaiarn Bendefig	13
Gwylan	16
Priodas Hun	18
Ora Pro Nobis	20
"Ora Pro Nobis"*	22
Mun ac Oenig	24
"Nadolig Llawen"	26
Gobaith	27
Credo	28
Gwên y Marw	29
Yn Erw Duw	30

II. TELYNEGION MEN.

Men	33
Hyd fin y maes, ym min yr hwyr	34
Bob nos oleu leuad	35
Cartref Haf yw Deffrobani	37
Pe bai gennyf serch	38
Hoffais di yn ieuanc, Men	39
Dan dy lewyrch, leuad ieuanc	40

III. TELYNEGION SERCH.

Y Blodyn Glas	41
Blodau a Serch	42
Caru Haf	43
Hollt y Fellden	45
Yr Afal Melyn	47
Serch	48
Cynnyg Calon	49
Hiraeth	50
Merch y Felin	51

* Cyfieithiad i'r Saesneg gan y Parch. J. W. Wynne-Jones, M.A., Caernarfon.

IV. TELYNEGION Y MISOEDD.

	<i>Tudalen.</i>	
Ionawr	55	Gorffennaf ... 64
Chwefror	56	Awst 65
Mawrth	57	Medi 66
Ebrill	58	Hydref 67
Mai	61	Tachwedd ... 68
Mehfin	62	Rhagfyr 69

V. TELYNEGION Y MAES.

Trioedd y Mynydd	70
Y Ser	71
Briallen Sul y Blodau	72
Bardd a Blodenydd	73
Ystyriwch y Lili (Llyn y Garreg Wen)	75
Cyfarch y Llinos (I blant fy mro)	77
Mabinogi	78
Liw Dydd, liw Nos	80
Perthi Mai	81

VI. TELYNEGION Y MOR.

Y Llanw	85
Yr Afon	96

VII. TELYNEGION CYMRU.

Y Porth Prydferth	99
Os wyt Gymro	100
Gwyl a Gwaith	101
Coelcerthi'r Bannau	102
O cadwn uchelwyl	104
"Ochain y Clwyfawg"	105
O'r Deffroad	107
Cymru'r Diwygiad	109
"Paradwys y Bardd"	111



TELYNEGION

MAES A MOR.

Hwiangerdd Sul y Blodau.

(I fy Mam.)

TAN y garreg las a'r blodau,
Cysga, berl dy fam;
Gwybod mae dy dad a minnau
Na dderbyni gam :
Gwn nad oes un beddrod bychan
Heb ei angel gwyn;
Cwsg, fy mhlentyn, yma'th hunan—
Cwsg, Goronwy Wyn.

Cofio'r wy, pan oeddit gatre'n
Cysgu gyda ni,
Cadw fynnw'n blant y pentre
Rhag dy darfu di :
Ond boddlonwn iddynt heno.
Gyda'u miri iach,
Pe bai obaith iddynt ddeffro
Fy Ngoronwy bach.

Cwsg, fy mhlentyn, heb dy fami—
 Cwsg yn erw Duw;
 Casglu blodau buom iti—
 Sul y Blodau yw :
 Chwe briallen fach a ddywed
 Mai yr haf yw hi;
 Cwsg o danynt heb eu gweled,
 Cwsg, fy rhosyn i.

Beth i serch yw mis a blwyddyn?
 Cwsg, fy nhlysaf un;
 Onid ti yw'm hunig blentyn
 Nad yw'n mynd yn hŷn?
 Mae y lleill yn symud, symud,
 Ac yn bryder im;
 Ond nid felly di, f'anwylyd—
 'Chrwydra'r marw ddim!

Tan y garreg las, Goronwy,—
 Cysga beth yn hwy;
 Rhaid yw dweyd "Nos dda," Goronwy,—
 Mynd a'th ado'r wy :
 Nid oes eisieu llaw i'th siglo
 Yn dy newydd gryd;
 Cwsg, nes gweld ein gilydd eto,
 Cwsg, a gwyn dy fyd.

Flower Sunday Lullaby.

WHERE the flow'rs and gray stone hide thee,
Sleep, my pearl, below ;
That no harm shall e'er betide thee,
I and father know :
Little graves are never lonely,
Angels guard their kin ;
Sleep, my child, thyself there only—
Sleep, Goronwy Wyn.

Well I mind, when thou wert sleeping
In our home with me,
Village boys I'd fain be keeping
From disturbing thee :
Would to-night our rest were shaken
By their mirthful din,
If, ah ! if they could awaken
Thee, Goronwy Wyn.

Sleep, my child, without thy mother,
In God's acre rest ;
We, this Flower Sunday, gather
Posies for thy breast :
Six small primroses unfolding
Tell of summer mild ;
Sleep beneath them, none beholding,
Sleep, my rose, my child.

What are months and years to mothers,—
Sleep, my darling so ;
Thou alone, unlike the others,
Dost not older grow :

They are restless, restless ever,
 Causing me dismay;
Not so thou, my darling, never
 Does my dead one stray.

Slumber yet awhile, Goronwy,
 Under that gray stone;
I must say "Good night," Goronwy,
 Leaving thee alone:
Strange that cradle! hand of mother
 Need not rock thee now:
Sleep until we meet each other,—
 Sleep, and blest be thou.

Cyfeithydd—

J. W. WYNNE-JONES, M.A.,

Ficer Caernarfon.

Islawhaiarn Bendefig.

GWRANDAWEM riddfaniad y deri,
Gwrandawem ystori fy nhad—
“Boed melldith ar gastell Llawhaiarn,
A'r felldith yn fendith i'w had!”
“Boed melldith,” griddfanai y deri,
Ail-gofiai y nefoedd y cam;
Yn llygad fy nhad yr oedd melten,
Ond lleithio'r oedd llygad fy mam.

“Fy mhlant,” meddai, “dyma ystori
Yr anghyfanedd-dra a wnaed;
Hyd heddyw mae cofio yr ormes
A'r adfyd yn poethi fy ngwaed;
Os wyl yn oedrannus a musgrell,
Nid wyl mor anghofus a hyn,
Nad wn i pa bryd y dechreuodd
Fy marf a fy ngwallt droi yn wyn.

“Adwaenoch y goedwig helwriaeth
Ymestyn i'r mynydd o'r cwm;
Un waith yr oedd honno'n dyddyndir,
A chernau y mynydd yn llwm:
Nid oedd y tyddynod ond bychain,
A gwyrog gan oedran, ond O!
Yr oent yn dreftadaeth i rywrai,
A cherid y brwyn ar eu to.

“Yn fore llafuriai'r tyddynwyr,
Gan dyfu eu gwenith a'u haidd;
A'n chwiban a glywid o'r mynydd,
Fin nos, wrth gorlannu eu praidd;

Pan ganai y fwyalch ddyhuddgloch,
 Hwyl aent i noswyllo bob un;
 A beth roddai segur bendefig
 Y castell am noson o'u hun?

"Chwarenai eu plant ar yr aelwyd,
 Eu chwareu, fel wyn ar y firidd;
 Eu hoffder oedd torri eu henwau
 Ar wyneb y pantlawr o bridd;
 A mynych ar hirnos o aeaf,
 Y clywech eu canu fin hwyr;
 Ac yna tawelwch gweddio
 Ar bopeth—y nefoedd a wŷr.

"Cyfannedd, fy mhlant, oedd y mynydd
 Gan rywrai, cyn plannu y coed,
 Hyd angladd hen Yswain y castell,
 A'r dydd daeth Llawhaiarn i'w oed;
 'Mhen mis ar ol hynny, daeth rhybudd
 Ymadael, ar wŷs ac ar fant;
 Aeth tadau a mamau i wyllo,
 A safodd chwareuon y plant.

"Tan ergyd y gwae, y nos honno
 Bu eiriol wrth ddrysau y nef;
 A thrannoeth wrth ddrysau Llawhaiarn,
 Ond byddar fel tynged oedd ef:
 Ni fynnai fod mwy mewn cyfiawnder
 Na gwneuthur a fynnai ei hun;—
*Cyfiawnder yw chwalu cartrefi,
 Os gwell yw petrisen na dyn.*

"Mi gofiat i 'medd yr ymadael—
 Ar nos Galangaeaf bu hyn;

Edrychai y lloer yn dosturiol
Ar ddaear gan farrug yn wyn—
Edrychai ar gaethglud yr ormes
Yn symud, *fel angladd y byw!*
Heb do, ond y nef wrth eu pennau—
Heb gyfaill yn unman, ond Duw.

“Ymlaen elai'r wledd yn y castell,
A gwinoedd Llawhaiarn yn waed;
Ymlaen elai'r ddawns, a chalonnau'r
Tyddynwyr yn ysig dan draed;
O Dduw! pam goddefir i fympwy
A thrais gael diffeithio y byd?
Ai byth y bydd bywyd mor ddibris?
Ai byth y bydd Rhyddid mor ddrud?

“Yr ydych yn teimlo, fy mechgyn,
Mi welaf eich dial yn fflam,
Yn cynneu yn wyllt yn eich llygaid,
Wrth wrando ystori y cam;
Mynegwch hi'r nos i fy wyrion,
Gan ddweyd fel y dwedai eich tad—
Boed melldith ar gastell Llawhaiarn,
A'r felldith yn fendith i'w had!”

Gwylan.

Yn ymyl y môr y mae caban,
 Un caban yn ymyl y môr;
 Ei gerrig yn llyfn ac yn wynion,
 A'r gwymon yn bêr wrth ei ddor :
 Ac yno mae merch elwir Gwylan—
 Ieuengaf a thecaf ei thad;
 Gwylanod y môr ei llateion,
 Ac erwau y môr ei hystad.

Un lon fel chwerthiniad yw Gwylan,
 Chwareus, a pheryglus o ffraeth;
 Nid dwyrudd liw'r ewyn sydd iddi,
 Ond dwyrudd liw tywod y traeth :
 Chwiorydd yw'r awel a hithau—
 Hi'n felus, a'r awel yn hallt :
 Mae glesni y môr yn ei llygad,
 A chrychni y môr yn ei gwallt.

Os serchus ei henw yw Gwylan,
 Mwy serchus yw Gwylan ei hun ;
 Ni ellir ei gweld heb ei charu,
 Ond ni eill hi garu ond un :
 Os Llïon y cychwr y'm gelwir,
 'Waeth gennyf pa swynwr a ddaw—
 Myfi bia gusan ei gwefus,
 Myfi bia'i chalon a'i llaw.

Ar ddistyll y trai, pan ollyngaf
 Fy nghwch o'i fordwyfa yn rhydd ;
 Bydd Gwylan yng nghysgod y caban,
 Yn sefyll a'i llygad yn brudd :

" Mae'r eigion yn ffals," meddai wrthyf,
" A llithiwr hudolus yw'r trai;
O, Llion, ni fedraf ei garu,
Heb garu fy Llion yn llai!"

Ond pan gyda'r llanw dychwelaf
I'r gilfach, er gwell ac er gwaeth,
Bydd Gwylan, a'i llygad yn llonnach,
Yn sefyll ar leithder y traeth :
Gwna gymod diwrnod a'r eigion,
A geillw ei hofn yn beth ffol—
Mae Gwylan yn caru y llanw,
Mae'n dyfod a Llion yn ol.

Priodas Hun.

Ar fwsog lawr Mehefin,
Yng nghysgod onnen las,
Breuddwydai rhian ieuanc
Freuddwyd am serch a chas.

Ai merch y lloergan ydoedd,
Neu dylwyth teg y gwŷdd
Yn flin ar ol y nosddawns,
Ac wedi cysgu i'r dydd?

'Roedd ganddi iysedd gwynion,
Ac ar y gwynnaf un
'Roedd modrwy dyweddiad,
Fel pleth o'i gwallt ei hun :

Y gwallt ddisgynnai'n felyn
Ddiotal, ar wahan
Dros las ei llygad caudad,
Yn fil pelydrau mân.

Breuddwydai'r rhian freuddwyd
Hudolus dlws ac erch,
Yng ngofid llonnaf bywyd,
Yng ngwynfyd chwerwaf serch.

Yng nghanol ei gwryfon
Yn wryf gwelai'i hun ;
Ei dydd priodas ydoedd,
Ei dydd melusaf un.

Trwy'r dellt yr haul dywynnai,
Ar chwaer i'r lili wen ;
Trwy'r dellt, edrychai hithau
Am nefoedd las uwch ben.

Gwrandawai'r clychau'n canu,
Fel gwnaethent lawer tro;
A gwyddai fod ei henw
Ar fin cariadau'r fro.

Ai'r cerbyd gwynfeirch heibio,
Yng nghanol llygaid syn;
Hi glywai sibrwd rhywbeth
A'i gwnaeth yn wyn, yn wyn.

Arafai ger yr allor,
Arafai yn ei braw—
Nid oedd priodfab yno
Yn disgwyl am ei llaw.

“O Aled, Aled,” meddai
Mewn syndod, trwy ei hun;
“Tydi, fy mhopeth puraf,
Yn caru mwy nag un!”

Breuddwyddiai fod y galon
Oedd ar ei modrwy'n ddwy;
A thoriad yn ei chalon
Ei hunan oedd yn fwy.

Ni wybu ddim ond hynny—
O'i hun deffrodd, o'i braw—
'Roedd modrwy serch yn gyfa',
A mab ei serch gerllaw.

Ora Pro Nobis.

MAE'R curlaw yn dallu
 Ffenestri fy nhy,
 A thymestlwynt Tachwedd
 A gyfyd ei ru;
 Mae oedyrn y derlwyn
 Yn siglo i'w gwraidd,
 A brefu am loches
 Wna ychen a phraidd—

*Ein Tad, cofia'r adar
 Nad oes iddynt gell;
 Mae'r eira mor agos,
 A'th haf Di mor bell.*

Mae'r gorlif yn ddisglaer
 Hyd wyneb y fro;
 A gyrr y cymylau
 Fel gwerysll ar ffo;
 Gan ergyd y ddrycin
 Fy mwthyn a gryn,
 Gwell aelwyd na heol
 Ar noson fel hyn—

*Ein Tad, cofia'r araf
 A gwsg tan y lloer;
 Mae'i wisg ef mor deneu,
 A'th wynt Di mor oer.*

Mae'r ewyn yn wyn
 Ar y mordraeth gerllaw—
 Cyn wynnod a dalen
 Y llyfr yn fy llaw—

A hed y gylfinhir
Fel cri trwy y nef,
Gan ofn y rhyferthwy,
A'i ddigter ef.

*Ein Tad, cofia'r morwr,
Rhŵng cyfnos a gwawr,
Mae'i long ef mor fechan,
A'th fôr Di mor fawr.*

"Ora Pro Nobis."

My windows are darkened
 By rain-storms without,
 The gale of November
 Is raising its rout;
 The stalwarts of oak-forests
 Shake to their base,
 The sheep and the oxen
 Crave sheltering place—

*Our Father, remember
 The birds in their woe,
 So far is Thy summer,
 So near is Thy snow.*

In flood o'er the valley
 The river gleams bright;
 The clouds are swept onward,
 Like legions in flight;
 My cot feels the buffet
 Of squalls as they smite,
 Yet, better the hearth-side
 Than street such a night—

*Our Father, remember
 The arab out there,
 So thin is his garment,
 So biting Thy air.*

The white foam is fringing
 The edge of the sand,
 As white as the leaflet
 I hold in my hand :

The curlew above us
Is whirled, like a cry,
In fear of God's tempest
And anger on high.

*Our Father, remember
The sailor by night,
So vast is Thy ocean,
His vessel so slight.*

Cyfeithydd—

J W. WYNNE-JONES, M.A.,

Ficer Caernarfon.

Mun ac Oenig.

GWELAIS hi ar fin y traeth,
 Yn y mis blodeuai'r perthi;
 Geneth fwyn a llygad ffraeth,
 A'r gwefusau cochaf ganddi.

Cawsai, pe fel llawer mun,
 Gymaint arall o fodrwyau
 Ag oedd yn ei gwallt ei hun,
 Gan gynnifer o gariadau.

Yn ei chanlyn fel peth hoff,
 Pleth o flodau am ei gwddw,
 Yr oedd oenig fechan gloff,
 Elwid ganddi wrth ei henw.

Pethau ieuainc oedd y ddwy,
 A chwareuent mor ddiniwed
 Fel yr oedais beth yn hwy—
 Haws oedd oedi nag oedd myned.

Safai'r oenig fach yn gall,
 Rhedai, safai am gydymaith;
 Brefai'r oenig, chwarddai'r llall—
 Yna rhedai'r ddwy ar unwaith.

Nü fu chwarae gwell erioed,
 Na dedwyddach, nes i'r oenig
 Golli ei hanafus droed
 Ar y gwymon llyfn a llithrig.

Heibio'r greiglan dacw hi
 Yn diflannu yn yr ewyn—
 Clywais fref, a chlywais gri,
 A bu'r don yn fwyfwy brigwyn.

Crynnal'r eneth ar y lan,
Yn y llif y crynwnn innau;
A rhyw fywyd ofnus, gwan—
Hwnnw'n crynnu yn fy mreichiau.

Gwnes beth difraw, gwnes beth ffol,
Ond yr oedd y fun mor brydferth;
A chyn mynd o'r traeth yn ol,
Cefais fwy na gwerth y drafferth.

“**Nadolig Islawen.**”

I.

BOED eich Nadolig
 Yn gân i gyd ;
 Eira neu beidio,
 Gwyn fo eich byd ;
 A byddwch yn blant
 I'r hen Ddraig Goch,—
 Yn Gymry pur
 Ble bynnag y b'och.

II.

Boed lon dy lys,
 Boed lawn dy wledd ;
 A chofia ffys
 Yr hwn na fedd.

III.

Cadw'th Nadolig, fy mrawd,
 O newydd i Fab y Dyn ;
 Car dy gymydog, fy mrawd,
 A char ef fel ti dy hun.

A phan wrth dy fwrdd, fy mrawd,
 Ai prin ai helaethwych fo—
 Cadw dy friwsion, fy mrawd,
 I'r frongoch a llwyd y to.

Gobaith.

"LLONNAF o'r engyl wyt ti," medd Duw—
"Dos i ddiddanu calonnau briw."

Ac yntau Gobaith, mor wyn a'r wawr,
I Seren Ofnau a ddaeth i lawr.

Efe sy'n canu, goruwch y cryd,
Holl hwiangerddi melus y byd.

Mwyn ei addewid yn nhrallod dyn,—
Oni ddwg hanner bob croes ei hun?

Erys yn olaf gerllaw yr Yw,
I sychu'r deigr uwch blodau gwyw.

Ni ddaw y'mhellach na phorth y Nef,—
Gweini'n y byd yw ei nefoedd ef.

Credo.

YN Ei nef mae Duw—
 Yn y goleu cannaid,
 Pur, nad eill seraphiaid
Ddyfod ato a byw.

Yno'n wyn Ei fyd,
 Clyw berffeithgan engyl
 Rhwng y pyrth o beryl,
Clyw riddfannau'r byd.

Ie, i lygaid Duw
 Nid oes dim rhy fychan—
 Gwel y cread cyfan,
Gwel fy meddwl briw.

Mwy na'i Orsedd fawr
 Yw Ei galon dyner;
 Trig y goruchelder,
Gwyr am lwch y llawr.

Yn Ei nef mae Duw,
 Eto ca y cydfyd
 Le yn Ei feddylfryd—
Onid Cariad yw?

Gwen y Marw.

I'r ystafell aem yn ddistaw,
Un ac un,
Heb ddywedyd dim i dorri
Ar ei hun.

Yno llaw amddifad blentyn,
Tan ei graith,
Dynnai'r caead a'r llieiniau'r
Olaf waith.

Gwelem tanynt mewn tangnefedd
Wynneb tad;
Syllem, synnem ar ei degwch
Heb nacad.

Wylai'r ienainc gan y dwyster,
Wylai'r hen;
Ar wynepryd un yn unig
Yr oedd gwên.

Cannaid weddnewidiad angau
Ydoedd hi;
Gwên arosai i oleuo'n
Gofid ni.


Gwyn eu byd y llygaid hynny
Oedd y'nghau;
Tlws gan wawrddydd anfarwoldeb
Oedd y ddau.

Fyrred, ac mor ddiflanedig
Gwên y byw;
Gwên yr arch—gwên olaf, hwyaf,
Bywyd yw.

Yn Erw Duw.

Cu oeddit gennyf fi, fy nhad,
Cu oeddwn innau gennyf ti—


O, boed fy moes fel moes fy nhad,
A boed ei Dduw yn Dduw i mi.





“ Hoffais di yn ieuanc, Men,
Gŵyr fy nghalon a'th un dithau.”

Jelynegion Men.



Men.

Yn yr allt ar lannau Dwyfor
Y cyfarfum a fy Men,
Clychau'r gog oedd yn ei dwylo,
Gwallt fel heulwen ar ei phen;
Tecach oedd na neb a welswn
Yn rhodianna yn y coed—
O, mi deimlais yn fy nghalon
Beth na wnes erioed.

Yn yr allt ar lannau Dwyfor
Ar foreuau wedi hyn,
Bum yn un o ddau yn casglu
Clychau glas i ddwylo gwyn;
Onid oedd yn drafferth felus,
Hedfan fel rhyw loyn haf?—
O, ni fum erioed mor lloned,
Nac erioed mor glaf.

Yn yr allt ar lannau Dwyfor
Tyf y glaslwyn fel o'r blaen;
A chwedleua'r don barabllus
Chwedlau serch wrth rô a maen;
Hoff gen' innau'r eneth honno
A gyfarfum yn yr allt;—
Gyda'r clychau yn ei dwylo,
Gyda'r heulwen yn ei gwallt.

Hyd Fin y Maes, ym Min yr Hwyr.

Hyd fin y maes, ym min yr hwyr,
 Rhodiannai dau yn wyn eu byd ;
 Ac iddynt, *caru'r* oedd y ser,
 A *charu'r* oedd ysgubau'r yd :
 Gwna serch erioed bob dau yn ffol,
 Gwna serch erioed bob dau yn ddall ;
 Pwy rodiai'r maes ym min yr hwyr !
 Myfi oedd un, a Men y llall.

Y mis pan oedd y berth yn las,
 A'r mis pan oedd gan eira'n wen,
 Rhodiannai'r wenloer gyda'r ser,
 Rhodiannwn innau gyda Men :
 Rhy fyr i serch yw hirddydd haf,
 Rhy hir yw'r disgwyl byrra' erioed ;
 Ac am y ddau pwy wyddai'n well
 Na'r llanc a'r eneth ddeunaw oed ?

Cynhaef arall welais i—
 'Roedd chwerthin yn y llwyni cnau—
 Ond Men, a'i dwyrudd fel y lloer,
 Yn son am fedd a chartre'n cau ;
 Hyd fin y maes, ym min yr hwyr,
 Rhodiannai dau yn fud, yn fud ;
 Ac iddynt, *wylo'r* oedd y ser,
 Ac *wylo'r* oedd ysgubau'r yd.

Bob Nos Oleu Iseuad.

Bob nos oleu leuad,
Fel deuai'n ei thro ;
Rhodianna i garu
Wnai deuoedd y fro ;
Mordwyo wnaem ninnau
O gilfach y gro ;

Mordwyo, mordwyo,
O gyrraedd, o glyw,
Myfi wrth y rhwyfau,
A Men wrth y llyw.

'Roedd cariad yn ieuanc
A ffol ar y pryd,
Y môr oedd ei degan,
A'r cwch oedd ei gryd.
A difyr oedd chwarae
Hyd wyneb ei fyd ;

Mordwyo, mordwyo,
A'r galon yn llon ;
A'r lloergan fel barrug
Y môr ar y don.

Mwy hoff na chwedleua
Ac eistedd tan bren,
Oedd gwrando chwerthiniad
Y tonnau gan Men,
Neu gri y gylfinhir
A'r wylan uwchben ;

Mordwyo, mordwyo,
O olwg y tir,
A'r rhwyfau ar brydiau
Yn sefyll yn hir.

Rhyw nos oleu leuad
A ddaeth yn ei thro,
Rhodianna i garu
Wnai deuoedd y fro;
Mordwyo wnaem ninnau
O gilfach y gro;

A gwnaethom cyn dychwel
Y llw i gyd-fyw,—
Myfi wrth y rhwyfau,
A Men wrth y llyw.

Cartre'r Haf yw Deffrobani.

CARTRE'R haf yw Deffrobani,
O na ddeuit, Men,
Gyda mi i chwilio am dani,
Yn fy rhwyfiong wen :
Hwnt i for y mae yr ynys,
Hwnt i lawer tir;
Ond gwnai serch y siwrnai'n felus,
Er yn siwrnai hir.

Gardd y byd yw Deffrobani,
Wennaf Ynys Wen;
Tyr y wawr yn ei ffenestri,
Cod dy angor, Men :
Oni hoffet fyw ar ddiliau
Gwell na breuddwyd bardd?
Cysgu ar welyau blodau,
Heb i neb wahardd?

Glas yw daear Deffrobani,
Glasach yw ei nen;
Glas yw'r don sy'n curo arni—
O na ddeuit, Men :
Caem fordwyo hyd y glannau
Tan oleuach ser;
Gydag awel yn yr hwyliau
Oddiar lysiau per.

Tyf y palm yn Deffrobani,
A phob prydfierth bren;
Haf o hyd sydd yn ei llwyni—
Gwna'r adduned, Men :
Pe na bai o fewn yr ynys
Neb ond ni ein dau,
Byddet ti a minnau'n hapus,
'Fory—paid nacau.

De bai gennyf Serch.

Pe bai gennyf serch at dy fardd, fy Menna,
 Ti ddaethet fel cynt;
 Rhwngllwyni y brwyn a gwymon Gorffenna',
 A'th wallt yn y gwynt;
 Mae celyn y môr yn holi am danat,
 Pan elwyf fy hun;
 A pheth a ddywedaf am nad wyt yn dyfod,
 Fy mun, fy mun?

Mordwywyr, fel cynt, sydd ar lif yr afon—
 Yn ddenoedd fel cynt;
 A'u dwylo y'mhleth, fel y rhwyfau gwynion
 Y'mhleth yn y gwynt:
 Mae cymar gan bawb—gan fordwywyr a
 gwylain—
 A mi heb yr un!
 Gwyn fyd na ddychwelit i'm cwch ac i'm
 calon,
 Fy mun, fy mun.

Hoffais Di yn Ieuanc, Men.

Hoffais di yn ieuanc, Men,
Gŵyr fy nghalon a'th un dithau :
Cyn i'th Ebrill lithro, Men,
Cyn i'th flagur dorri'n flodau ;
Onid fi, tan gauad bren,
Gafodd gynta'th gusan felus,
Cyn i'r gwenyn gwylltïon, Men,
Unwaith ddisgyn ar dy wefus ?

Hoffais di yn hoffach, Men,
Fore'r dydd y'th welais lonnaf ;
Yn dy wyn yr oeddit, Men,
Yn dy flodau, fel Gorffennaf ;
Glasliw oedd y nef uwch ben,
Fel dy lygaid llaith, teimladwy ;
Ger yr allor gwridet, Men,
Ond dy chwaer oedd bia'r fodrwy.

Hoffais di'n dynerach, Men,
Pan oedd craith ar y dywarchen ;
A phan safet tithau, Men,
Yn y fynwent gyda'r ywen ;
Gwelais yno'th wefus wen
Oedd gynefin â thrallodion ;
Wylet fel y gawod, Men,—
Wylwn innau yn fy nghalon.

Hoffais di yn ieuanc, Men,
Cyn i'th flagur dorri'n flodau ;
Hoffais di drwy bopeth, Men,
Drwy dy wên a thrwy dy ddaugrau.
Doed a ddel ohonot, Men,
Ni eill neb dy garu eto
Fel y gwnaeth dy Alun, Men,
Fel y gwna dy Alun heno.

Dan dy Isewyrch Ieuad Ieuanc.

I.

TAN dy lewyrch, leuad ieuanc,
 Yn nhawelwch min yr hwyr,
 Y seliasom, Men a minnau,
 Lw'r cyfamod—Duw a wyr :
 "Ti a fydd fy mhriod bellach,"
 Meddwn wrthi, "doed a ddel ;
 Boed y lloer yn dyst o'r amod,
 Dyma'r fodrwy—dyma'r sel."

II.

Tan dy lewyrch, leuad ieuanc,
 Ar ol misoedd blin i Men,
 Y siglasom law ddiweddaf,
 Fin wrth fin, dan frigog bren ;
 Clywem chwerthin y medelwyr
 Yn y maes cynbaeaf draw ;
 Ond nid chwerthin oedd ar galon
 Dau mor hoff wrth siglo llaw.

III.

Tan dy lewyrch, leuad ieuanc,
 Ydwyf heno hebddi hi,
 Fel aderyn heb ei gymar—
 Menna a'm gadawodd i ;
 Nid i garu rhywun arall,
 Wrth y llyn, na than y pren ;
 Ar y garreg medraf ddarllen
 Tair llythyren enw Men.

Y Blodyn Glas.

HOFFDER bardd a llatai'r galon,
Tlws gan Natur a chan Serch;
Galwant ef yn Nad-fi'n-anghof,—
Enw taerni mwynaf merch.

Glasach yw na'r nefoedd lasaf,
Glasach yw na'r môr ei hun:
Sut y medraf lai na'i garu?
Llygad glas sydd gan fy mun.

Pe bai'r ddaear heb friallu,
Byddai'r haf yn haf i mi;
Byddai lliw y môr a'r nefoedd
Yn ei lygad ef a hi.

O, ni fedraf lai na'i garu,
Flodyn glas yn anad un;
Oni wn am gymar iddo?
Llygad glas sydd gan fy mun.

Digon yw o lythyr caru,
Pan ar ddalen wen y daw,
Os bydd tano enw Rhywun
Wyf yn adwaen wrth ei llaw.

Gall fod rhywrai'n beio arnaf—
Ni waeth gennyf fi pa un;
Gwn nas gwnaent pe'n cofio unpeth—
Llygad glas sydd gan fy mun.

Blodau a Serch.

GWYNNODD yr afallen,
Lawer tro, fy merch,
Er pan safem dani
Yn ieuentid serch;
Heno blodau ereill
Welaf uwch fy mhen,
A chariadon ereill
Chwarddant dan y pren.

Er ein cariad cyntaf
Gwelsom ddeuddeng Mai,
Eto yn y galon
Nid yw serch yn llai:
Er beneiddio'r blodau
Ceidw'r pren yr un—
Gwreiddia serch yn ddyfnach
Fel yr elo'n hyn.

Caru Haf.

Ym mis briallu ac awel fwyn,
Mis glesni gwybr a glesni llwyn;

Canai yr adar, yng nghoed y fro—
Canent a chanent, drwodd a thro.

Canai mwyalchen yn llwyn y ty,
Un gylfin melyn ac aden ddu—
Arafai weithiau i drwsio'i phlu.

Mwyalchen unig, heb ganddi fun,
Canai am gymar heb gael yr un.

I'r llwyn, ryw fore yn llewyrch haul,
Daeth gwew nwyfus i blith y dail—

Canodd ei deunod am hafaidd hin,
Llediaith y Dehau oedd ar ei min.

Hoffodd y fwyalch y gwew gu,
Hoffodd y gwew y fwyalch ddu,
A nythu wnaethant yn llwyn y ty.

Bore cawodog, a haul ar fryn,
Rywbyrd yn Ebrill neu Fai oedd hyn.

Canai y gwew, tan las y nen,
Canai, hedfanai o bren i bren.

A chanai'r fwyalch ei serch i'w mun—
Canai yn effro a thrwy ei hun.

Canol Mehefin ar fyrr a ddaeth,
Canol Gorffennaf—a'r hafddydd aeth.

Yna bu helynt, a helynt fin—
Canfu y gwew ddalen fach grin;
A'i chalon oerodd mor oer a'r hin.

“Dalen y gaeaf yw hon,” medd hi,
“Hafddydd—dim gaeaf, dim serch, i mi!”

Clywsai draddodiad yng ngwlad yr ha'
Am aea'r gogledd—gaeaf ac ia :

Trwsiodd ei haden ar fin y nyth—
Ni welodd y fwyalch mo'r gwew byth.

Hollt y Felten.

I.

Mi wn am dderwen yn y ddôl,
A hollt y felten ynnddi;
Mi wn am graith blynyddau'n ol
Sydd dan y dail eleni;
Mae'r gangen ddringwn gynt yn ddwy,
A'r rhisgl wedi'i ddeiffo;
Ac ni ddaw mesen ieuanc mwy
O'r gainc ddolurus honno.

Fe saif y dderwen wrthi'i hun,
A'i brig yn araf grymu,
A gŵyr y plant na bydd yr un
Aderyn ynnddi'n nythu;
Tan awel fwyn a haul yr haf,
A thyner wlith yr hwyrnos,
Dihoeni mae y dderwen glaf,
A'r graith, a'r graith yn aros.

II.

Myfi yw'r pren a welais ti
A'i gangen wedi dryllio;
Mae gofid yn fy mywyd i
Na wŷr y byd am dano;
Mae'r blwyddi'n awr yn amlhau
A'r felten wedi diffodd,
Ond dal yn hir, yn hir heb gau,
Mae'r galon a anafodd.

Ni chawr mwy—dywedaf pam,
O lygad fy anwylyd
Y daeth y fellten, wedi cam,
O gwmwl ei gwynepryd.
Mae'r graith yn aros, am fy mai,
Ond dim aderyn llawen,
A minnau sydd, o Fai i Fai,
Yn marw gyda'r dderwen.

Yr Afal Melyn.

I.

Mae pren afalau yng nghoed fy ngardd,
Ac arno un afal, mor felyn, mor felus;
Mae'r adar fu'n nythu ym mherllan y bardd,
Yn canu eu hoffedd i'r afal cariadus;
Ond caned yr adar ar ben y brigyn,
Myfi bia galon yr afal melyn.

Gwelais yr afal yn flagur glas,
Ac nid oedd yr adar yn canu bryd hynny;
Gofelais am dano drwy'r barrag a'r ias,
Cyn iddo felynu, cyn iddo felysu;
A chaned yr adar ar ben y brigyn,
Myfi bia galon yr afal melyn.

II.

Mae'r ferch a garaf yn deg o bryd,
Ac unig yw hithau ar frigyn y teulu;
Mae 'nghyfoed yn hoffi ei thegwch i gyd,
A phawb yn ymryson am gael ei chusanu;
Ond caned a gano glod fy anwylyd,
Myfi bia galon fy nghariad hefyd.

Cerai hi gyntaf yn rhian fach,
Yn nhlysi plentyndod, ym mlagur ieueng-
oed;
Bum iddi yn gysgod yn glaf ac yn iach—
Ar ereill bryd hynny 'roedd llygaid fy
nghyfoed:
A chaned a gano glod fy anwylyd,
Myfi bia galon fy nghariad hefyd.

Serch.

HEDAI dau aderyn
Hwyrol tros y ddaear;
Clywn y naill yn galw,
Galw ar ei gymar—

O, mae serch ym mhopeth
Trwy y cread llydan;
Char yr un aderyn
Hedfan wrtho'i hunan.

Hedai'r ddau aderyn
Heibio mewn cymundeb;
Clywn y naill yn galw,
Clywn y llall yn ateb—

O, mae serch ym mhopeth
Pe bai dyn yn deall;
Unig pob aderyn,
Heb aderyn arall.

Cynnyg Calon.

CYMER hi'n *drysor*,
A chadw hi;
Ceisiaf wneyd hebddi,
Os boddiaf di.

Cymer hi'n galon
Gyfan, fy mun;
Ni fynnwn hanner
Calon fy hun.

Cymer hi'n *degan*—
Ond, gwybyda hyn:
Gall chwareu ei thorri,
Ond aur nis pryn.

Cymer hi'n *unig*,
Na chais ddim mwy;
Ni chyd fydd calon
Yn un o ddwy.

Anfon *dy hen un*
Ar ffair, da thi;
Gwna'r galon honno
Y tro i mi.

Hiraeth.

GYDA'R tes eleni eto,
Galw wnaethost, alltud fach;
Dyfod ar dy aden heibio,
Cyfarch gwell a chanu'n iach.

Dyna wnei ar hyd y blwyddi,
Fel aderyn glas yr haf;
Trydar ennyd i fy llonni,
Yna 'ngado'n fwyfwy claf.

Nid wy'n cofio dydd croesawu,
Nac yn cofio dydd mwynhau,
Heb fod bore'r ymwahanu'n
Taenu'i gysgod dros y ddau.

Oni fuom fwy na digon
Yn dy ddanfôn i dy daith?
Onid yw fy nghalon wirion
Am bob tro yn dwyn ei chraith?

Dywed im, pa bryd y deui
Yma i aros, alltud fach?
Pryd y deui i orffwyso—
Cyfarch gwell *heb* ganu'n iach?

Merch y Felin.

GERLLAW y bompren, ddoe,
Mi sefais i enweirio;
Ac fel tywyniad haul
Daeth merch y felin heibio.

Arafodd i fy ngweld,
Gan bwysu ar y canllaw,
A swp o flodau maes
A rhedyn rhwng ei dwylaw.

Ni welais ddim erioed
Mor las a than ei haeliau;
Ni welais ddim erioed
Mor felyn a'i llywethau.

Meddyliais am y môr,
Ond nid oedd tonn cyn lased—
A'r tywod ar y traeth,
Ond nid oedd cyn felyned.

Wrth syllu ar ei llun,
Yn nwr y llyn o tani,
Mi deimlwn fel pe bai
Fy nghalon bron a boddi.

Ni wyddwn, gan fy serch,
Lle'r oeddwn i yn sefyll;
Ac ni ofalwn ddim
Am eog nac am frithyll.


Ergydio'r dwr wnai'r plyf,
A glynu yn y cangau;
Ergydio wnai fy ngwaed,
A glynu wnelwn innau.

Eiriolwn fel pe bawn
 Yn eiriol am ymwared
 "Dos ymaith benyd hardd"—
 Ond ofnwn iddi fyned.

"Dos, ynte symud gam,
 Yn lle bod yn dy unfan,"—
 Ni syniwn ar y pryd
 Y medrwn fynd fy hunan.

A glywodd hi y gair?
 Ni wn i ddim am hynny,
 Ond mynd wnaeth hi a'i llun,
 A minnau'n edifaru.

Ai tybed bu erioed
 Enweirio mor ysmala?
 Y pysg yn chwarae'n rhydd,
 A minnau wedi nala!






Refined picture

“Gwn pa beth yw cael fy nal
Yn nyrynsni'r blodau.”

Jelynegion y Misoedd.



Ionawr.

Wyr Ionawr yn oer
A'th farrug yn wyn;
A pha beth a wnaethost
I ddwr y llyn?
Mae iâr fach yr hesg
Yn cadw'n ei thy,
Heb le i fordwyo
Na throchi 'i phlu.

Wyt Ionawr yn oer
A'th farrug yn wyn;
Ac nid oes uchedydd
Na grug ar fryn;
O liaws y lawnt,
Ni welaf ond un,
O'r pridd wedi codi
Fel pe drwy 'i hun.

Wyt Ionawr yn oer
A'th farrug yn wyn;
A sigli yr adar
O frig yr ynn;
Ni cheir ar y coed
Griafol fel bu—
Mae'r frôngoch a'r fwyalch
O dŷ i dŷ.

Wyt Ionawr yn oer
A'th farrug yn wyn;
Ac ni fedd pawb aelwyd
Ar hin fel hyn;
Mae rhywrai heb dŷ,
A rhywrai heb dân,
A rhywrai heb fara,
Na chwsg na chân.

Chwefror.

CHWYTH, aeafwynt, fel y mynnot,—

Cryn fy ffenestr a fy nôr ;

Plyg y deri fel mieri—

Dyro ddawns i longau'r môr ;

1 Byr yw dydd a dyddiau Chwefror,

Cynt y dël yr hwyr na'r wawr ;

Chwyth y crinddail hyd y cwmwl,

Chwyth y ceinciau hyd y llawr.

Yn dy rwysg ac yn dy ryddid

Tros y Cnicht a'r Moelwyn chwyth ;

Cadw'r moethus yn ei gaban,

Cadw'r neidr ar ei nyth ;

Câr y wennol awel feddal,

Câr y gloyn glaiar si,

Caraf finnau'th ruad dithau—

Edn y ddrycin ydwyf fi.

Chwyth, aeafwynt, fel y mynnot,—

Cladd y mynydd dan y lluwch,

Cladd y môr o dan yr ewyn,

Chwyth, aeafwynt, eto'n uwch ;

Ond pe clywit ar ryw dalar

Oenig cynnar yn rhoi bref,

Tro oddiwirth y dalar honno,

Paid a chwythu arno ef.

Mawrth.

BETH a welais ar y lawnt,
Gyda wyneb gwyn, edifar?
Tlws yr eira, blodyn Mawrth,
Wedi codi yn rhy gynnar.

Beth a welais ar y llyn,
Rhwng y dwfr a brig yr onnen?
Lliw a modrwy brithyll Mawrth—
Ple mae'r enwair, ple mae'r bluen?

Beth a welais ar y twyn?
Wyneb oen, y cynta eleni:
Omid oen yw Mawrth ei hun
Pan fo'r wyn yn cael eu geni?

Beth a welais yn y dref?
Mynwent gyda'i phorth yn ddatglo;
Aed y claf o'i dŷ ym Mawrth,
Ni ddaw'n ol i gysgu yno.

Ebrill.

I.

MEDD y bardd yn wyn ei fyd—
 “Wele Ebrill glas ei lygad;”
 “Wele Ebrill,” medd y byd,
 Trwy ei flodau hanner-cauad.

“Ti, freuddwydiwr, gwrando, saf,”—
 Medd aderyn yn y berllan;
 Cana lawen garol haf,
 Wedi gwyl o flwyddyn gyfan.

“Fardd y blodau, wele fi,”—
 Medd briallen yn y cysgod;
 Hoff gan bawb ei hwyneb hi,
 Blentyn llonnaf haul a chawod.

Yn y galon, yn y pridd,
 Nid yw bywyd fud na byddar;
 Dywed cân a llygaid dydd
 Deimlad dyfnaf dyn a daear.

II.

Pwy fu neithiwr hyd y ddôl,
 Mewn sandalau aur ac arian?
 Pwy fu'n galw'r dail yn ol,
 Ac yn lllithio'r blodau allan?

Gyda'i dylwyth teg y daeth
 Heibio eleni fel y llynedd;
 Gwyn ei lwybr fel y llaeth—
 Mwyn ei dymer fel rhianedd.

Cân mwyalchen yn yr ardd
Rhwing y blagur ar y perthi ;
Gydag Ebrill pwy na chwardd ?
Berr yw'r gawod—hwy yw'r glesni.

Gad dy do, y wyneb cul,
Tro i wrando cainc mwyalchen ;
Onid gwell yw cân na chnwl ?
Calon iach yw calon lawen.

Cyfod, hauwr, dos i hau,
Oni weli seithliw'r enfys ?
Ni ddaw bendith o nacâu,
Ni ddaw bara i esgeulus.

Gwr el allan cyn y wawr
Pan fo'r briall yn eu tymor,
Fed ei faes ar decach awr—
Gasgl ei wenith i'w ysgubor.

III.

Glas yw wybyr Ebrill,
Glas fel llygad Men—
Mae enfys ar y cwmwl
A blagur ar y pren ;
Croesaw fis diferion
A phelydr bob yn ail ;
Tyred gyda'th flagur,
A thyred gyda'th ddail.

Gwyn yw wyneb Ebrill,
Gwyn gan lygaid dydd ;
A pha sawl llwyn briallu
Ym min y ffordd ymgudd ?

Croesaw fis y meillion,—
A mis yr oen a'r mynn;
Tyred yn dy felyn,—
A thyred yn dy wyn.

Gwin yw awel Ebrill—
Pob aderyn wŷr,
O'r hedydd gân y bore,
I'r mwyalch gân yr hwyr;
Gwyn dy fyd, aderyn,
A thithau bren a dardd;
Gwyn fyd pawb a phopeth
Ond calon brudd y bardd.

Mai.

Gwn ei ddyfod, fis y mel,
Gyda'i firi yn yr helyg,
Gyda'i flodau fel y barrug—
Gwyn fy myd bob tro y dél.

Eis yn fore tua'r waen
Er mwyn gweld y gwllith ar wasgar,
Ond yr oedd y gwersyll cynnar
Wedi codi o fy mlaen.

Eistedd wnes tan brennau'r Glog,
Ar ddyfodiad y deheuwynt;
Edn glas ddisgynnodd arnynt
Gan barablu enw'r gog.

Ni rois gam ar lawr y wig
Heb fod clychau'r haf o tano,
Fel diferion o ryw lasfro
Wedi disgyn rhwng y brig.

Gwn ei ddyfod, fis y mel,
Gyda'i firi, gyda'i flodau,
Gyda dydd fy ngeni innau—
Gwyn fy myd bob tro y dél.

Mehefin.

I.

MELUS rhodianna
 Hyd faes Mehefin,
 Pan ddychwel rhegen
 Yr yd i'w chynefin;
 Melus llestu — *(y ffeif- i'w cwmwl)*
 Tan onn a bedwen,
 Pan fo'r dail fel cwmwl
 Rhwng gallt ac wybren.

Melyn yw'r banadl
 Ar draeth y Laslyn,
 Teced ag enfys
 Ar lawr y dyffryn;
 Cyfyd y llinos
 Ei thy'n yr eithin;
 A deffry uchedydd
 Ym mrwyn Mehefin.

Nwyfus gan fywyd
 Yw nant ac awel,
 O wawr ar fynydd,
 Hyd hwyr ar orwel;
 Gwrendy y weirglodd
 Am lais y bladur,
 A phrennau y berllan
 Nid ydynt segur.

Eirin ar lwyni
 A phlant yn chwerrthin;
 Pa fis ddifyrred
 A mis Mehefin?

Cynnes ei hirddydd,
A mwyn ei gawod;
Hoffus ei enw
Ar fin rhanod.

II.

Onid yw'r caeau yn wyrdd, yn wyrdd,
A melyn eithin
Tan haul Mehefin
Hyd fin afonydd a min y fflyrdd?

Onid yw'r suon yn fwyn, yn fwyn,—
A beth mor dirion
A thrydar cywion
O bebyll adar yng nghoed y llwyn?

Onid yw'r wennol, fu c'yd ar ffo,
Yn ei chynefin
Yn nhes Mehefin,
Wedi anghofio fod tecach bro?

Onid yw'r blodau yn hardd, yn hardd,
Yn y gwelyau—
Ar frig y prennau—
A'u harogl esmwyth yn llenwi'r ardd?

Onid yw'r ddaear i gyd, i gyd,
Fel pe yn chwerthin
Tan haul Mehefin,—
A phwy chwenychai ddifyrrach byd?

Mae'r fro'n llifeirio o gân a mel,
Y bardd mewn breuddwyd
Am ardd a gollwyd,
A Duw ym mhopeth i'r sawl a wel.

Gorffennaf.

Un ohonoch, adar cerdd,
 Yw fy nghalon innau
 Pan y cwsg y glaswyrdd lwyn
 Uwch ei fil cysgodau;
 Pan fo wyneb môr a nef
 Fel pe am y glasaf—
 Gwae aderyn gân cyn pryd,
 Gwae na chân Gorffennaf.

Oni wnaed y fro yn ardd
 Heb yr un diffaethwch?
 A phob gardd o fewn y fro'n
 Wyllt-dir o brydferthwch?
 Fel y gloyn, claf o serch
 Yw fy nghalon innau;
 Gwn pa beth yw cael fy nal
 Yn nyrysni'r blodau.

Chwa Gorffennaf ddaw i'm ty
 Yn y bore melus,
 Gyda neithdar maes a môr
 Ar ei lleithiog wefus;
 Onid merch y môr a'r maes
 Yw fy nghalon innau?
 Câr fugeilio'r gwenith gwyn,
 Câr gyfeillach tonnau.

Hwst.

WYNNED oedd maenol Mai,
Gyda'i chynhaeaf blodau;
Gwynnach yw ydfaes Awst,
Gyda'i fil-mil tywysenau.

Chwiliad y llaw fu'n hau
Bellach am fen a chryman—
Esmwyth yw tonnau'r twf
Cyn llifo i fewn i'r ydlan.

Onid ysgrepan fach
Gadwai y grawn yn Chwefror?
Casgler corsenau Awst,
Ac onid rhy fach yr ysgubor?

Ceinciau o dan eu firwyth,
Ffrwythau o dan y braenar—
Pwy a ddyfalai fod
Bechadur ar wyneb daear?

Erchwch i wŷr a phlant
Eistedd ar lawr y lasfro;
Bu Duw yn cyflawni'r wyrth
O borthi y miloedd eto.

Medi.

CROESAW Medi, fis fy serch,
 Mis y porffor ar y ffriddoedd;
 Pan y ceni'th glychau mel
 Casgl y gwenyn o'r dyffrynnoedd :
 Os yw blodau cyntaf haf
 Wedi cauad yn y dolydd,
 Onid blodau eraill sydd
 Eto' nghadw ar y mynydd?

Croesaw Medi, fis fy serch,
 Pan fo'r mwyar ar y llwyni,
 Pan fo'r cnau'n melynu'r cyll,
 Pan fo'n hwyr gan ddyddiau nosi :
 Tlws yw'th loergan ar y môr,
 Yn ymsymud ar y tonnau :
 Tlws yw'th loergan ar y maes
 Ym mhriodas yr ysgubau.

Croesaw Medi, fis fy serch,
 Clir fel grisial yw'th foreuau—
 Clir fel grisial er fod Duw'n
 Aroglarthu ar y bryniau :
 Nid oes gwmwl ar y grug,
 Nid oes gysgod ar y rhedyn ;
 Pan y ceni'th glychau mel,
 Cyrchaf finnau gyda'r gwenyn.

Hydref.

"CADWAF fy ngwyl," medd bywyd,
"Galwaf fy ngwyrdd yn ol;
Casglaf fy mlodau adref
O'r mynydd, yr ardd, a'r ddôl"—
Clybu y maes a'r prennau,
A rhywbryd rhwng hwyr a gwawr
Cyfododd y gwersyll blodau—
Mae'r pebyll yn llwyd hyd lawr.

Caua y dydd ei lygad
Cysglyd yn gynt a chynt;
Clywir lle bu'r uchedydd
Ryferthawy y gwlaw a'r gwynt :
Cryn y binwydden ieuanc,
Cydia'n y mynydd mawr—
Ni ellir goroesi gaeaf
Heb wreiddio yn ddwfn i lawr.

Cyfyd y môr ei donnau,
Cyfyd yn uwch ei ru;
Tybed ddaw'r llong i borthladd,
A'r morwr yn ol i'w dŷ?
Diolch i Dduw am aelwyd,
A diolch i Dduw am dân;
Mae rhywrai heb dân nac aelwyd
Na chalon i ganu cân.

Tachwedd.

Pwy sydd yn dyfod fin nos i lawr,
 A chuwch ar ei ael, dros y Moelwyn Mawr?
 Gwyntyll y corwynt sydd yn ei law,
 A thrwy ei lawrdyrnu yfory y daw;
 Cauaf fy nor nes dywedo'r wawr
 Pwy syf dylathau y Moelwyn Mawr.

Chwardd yn ei afiaith fel cawr mewn gwin,
 A'i fantell am dano fel enfys grin;
 Casgl y crinddail wrth swn ei droed
 I'r aelwyd aniddos ym murddyn y coed:
 Pwy sydd yn crechwen yn droiog flin,
 A'i fantell symudliw fel enfys grin?

Cwsg yn anesmwyth a sang bob bryn
 Cyn diosg ohono 'i sandalau gwyn—
 Rhian ei serch yw'r gelynen werdd,
 Ac adar y ddrycin ei adar cerdd:
 Pwy sydd yn cerdded o fryn i fryn,
 Cyn diosg ohono 'i sandalau gwyn?

Caerdydd, Maes a Mor yn dros y Moelwyn Mawr.

Rhagfyr.

(Bu Tachwedd 1902 yn fis prudd i mi : torrodd
fedd i fy nhad).

CASGL y nifwl, chwal y nifwl
Ei lywethau uwch y dref ;
Nid oes swm ym mrig y morwydd—
Nid oes belydr yn y nef :
Acw ar ei gorsen ysig
Gwelaf un blodeuyn claf—
Bu fy nhad fel yntau'n edwi,
Edwi'n dlws fel ffarwel haf.

ma'n
Cryn yr eira, syrth yr eira
Ar yr heol, ar y coed,
Nes yw'r ddaear fel y Ddinas
Na lychwinodd neb erioed :
Cudd y graith ar y dywarchen,
Fel na welwyf mo'ni hi ;
Ond ni chudd yr eira gwynna'r
Graith sydd ar fy nghalon i.

Cân y clychau, chwardd y clychau
Yn eu dawns yn nhwr y dref—
Ai fel hyn y ceidw rhywrai
Heddyw Ei Nadolig Ef ?
Heddyw wedi gwyl a defod
Ugain canrif namyn un,
Os yw Duw yn caru dynion,
Nid yw dyn yn caru dyn !

Trioedd y Mynydd.

UCHEDYDD.

CERI'R glas a cheri'r twyn,
 Codi a disgynni eilchwyl;
 Rhaid fod rhywun yn y brwyn
 Yn dy garu, yn dy ddisgwyl;
 Gyda'th gân gadewi hi,
 Gyda'th serch doi'n ol i'r ddaear—
 Canwn innau, fel tydi,
 Pe bai gennyf finnau gymar.

LLYN.

Onid wyt, i mi, fel deigrin,
 Gyll y mynydd mawr?
 Cwsg y byd,—defnyddi dithau
 Ddydd a nos i lawr:
 Wyr y mynydd unig yntau
 Am ryw ofid cudd?
 Mae ei galon fel f'un innau'n
 Wylo nos a dydd.

GRUG.

Gwyn dy fyd di, rug y mynydd,
 Gwyn dy fyd o wydd y dref;
 Er dy fwyn mae haul a chwmwl,
 Gwlith y wawr a ser y nef;
 Gwyn dy fyd di, rug y mynydd,
 Heb yn ymyl un o'th ryw:
 Ni ofeli dros yfory,—
 Gwyddost y gofala Duw.

Y Ser.

Eis neithiwr heibio'r llyn,
Gan edrych dan y feisdon;
Ac yno gwelais fil a mwy
O berlau gloewon, gloewon.

Eis heibio gyda'r wawr,
Gan feddwl casglu'r perlau;
Ond nid oedd drannoeth berl ar ol,
Nac ol neb ar y glannau.

Briallen Sul y Blodau.

UN fechan, croesaw, croesaw,—
 Ai ti yw'r unig un
 I gofio Sul y Blodau,
 A deffro o dy hun?
 Ni welais i un arall
 Ar hyd y llwybr troed;
 Briallen Sul y Blodau
 Heb gymar yn y coed.

Un fechan, aros, aros
 Yn hwy heb droi yn wyw;
 Yr wyt rhy dlws i farw,
 Os wyt rhy wan i fyw;
 Eleni oer yw Ebrill—
 Dy Ebrill cynta 'rïoed,
 Heb lesni yn yr awyr,
 Heb lesni ar y coed.

Un fechan, gwywaist, gwywaist,
 O hiraeth cyn y wawr;
 Dy galon dyner dorraist,
 A dyma'th ben ar lawr:
 Mi daenaf fwsog drosot,
 A gwyliaf ar fy nhroed;
 Briallen Sul y Blodau
 Yn farw yn y coed.

Bardd a Blodeuyn.

CANODD bardd o genedl arall
Gân i ti;
Yn ei ysgol, llai na'r lleiaf
Ydwyf fi.

amlygon a'r Rhagymadall

Eto canaf finnau ganig,
Fyrred fydd,
Gan dy alw wrth dy enw,
Lygad Dydd.

Leied wn i o dy hanes
Fywyd tlws!
Tithau yn gymydog agos,
Ger fy nrws.

Ym mhle gwelwyd dy wynepryd
Gyntaf un?
Drowyd dithau o baradwys
Gyda dyn?

Sut y gwyddost ddyfod gwanwyn
Heibio'r ffridd?
Eilw rhywun "Cyfod bellach,"
Yn y pridd?

Byddi'n cau dy lygad, meddir,
Yn yr hwyr;
Ai i gysgu a breuddwydio—
Pwy a wyr?

A wyt ti yn bod, un bychan,
Fel myfi?
Ynte cysgod ar fy meddwl
Ydwyt ti?

out!
Solferino

A oes deimlad gan fodeuyn,
 Fel gan fardd?
 Lonnir ef gan haul a chawod
 Nes y chwardd?

Pe bai rhywun yn dy fathru—
 Mynn neu oen;
 Dwed, a feddi galon fechan
 Deimlai boen?

Gyrraedd ymson bardd hyd atat,
 Wyn wrandawr?
 Wyddost ti ryw beth am *enaid*
 Yna i lawr?

A! nid ydwyf er dy holi
 Ddoethach ddim;
 Gweni arnaf, ond ni roddi
 Ateb im'.

Cadw i siglo ar dy gorsen,
 Lygad Dydd;
 Mae yn Fai—tydi yn llawen,
 Minnau'n brudd.

Ystyriwch y Lili.

(Ymson haf ar fin llyn y Garreg Wen).

O, LILI'R dyfroedd—eiry'r llyn—
Bob haf, yn nwfr y gilfach hon,
Mor dlws yw'th bluen fechan, gryn
Heb doddi yn yr haul na'r don.

Y lariaidd wawr i'th ddeffro ddaw
I dreulio'r hirddydd ar ei hyd
Yn sylu ar lyn y ser uwchlaw,
Fel un yn gweld tawelach byd.

Cyn nos, dy lygad gaui'n dynn,
Ac yn dy galon rhagddi hi
Y cedwi'r dydd mewn purdeb gwyn—
Nid oes na lloer na ser i ti.

O! lili fechan! mae yn syn—
Yn syn dy weld, mewn byd mor ddu,
Yn dyfod allan yn dy wyn—
Ai angel yn dy blannu fu?

Mae'r llyn yn dywyll ar ei hyd,
Wyt tithau yn ei ganol ef,
Fel enaid sant wrth newid byd,
I lif y dŵr yn tynnu'r nef.

Ar frys daearol, pa sawl un
Aeth heibio iti er y wawr,
Heb gofio am na Duw na dyn,
Heb feddwl ond meddyliau'r awr?

A! bu yn werth gan Fab y Dyn
 Arafu ar ei ffordd i'r groes
 Uwchben blodeuyn wnaeth ei Hun
 I ddysgu gofal Duw i'w oes.

Mor flin yw ffrwd y Garreg Wen—
 Ai onid yw ei murmur hi,
 Ac oerni'r llyn o dan dy ben,
 Yn torri dy freuddwydion di?

Mae ffenestr fechan gennyf fi
 A'i llygad gloew tua'r de;
 Mwyn yw yr awel arni hi,—
 Pe mynnet, gallet newid lle.

Na, yn fy nhy ni allet fyw
 Heb oerni'r llyn o dan dy ben;
 Hiraethet hyd nes troi yn wyw
 Am furmur ffrwd y Garreg Wen.

Cyfarch y Llinos.

(I blant fy mro).

CANAI llinos benddu'r eithin
Neithiwr, ar y Morfa Mawr;
Uwch ei haelwyd fach o fwsog,
Gyda'i Chrewr yn wrandawr;
Beth mor ber a chân aderyn,
Pan fo'r haf yn glasu'r byd?
Beth mor bur a serch aderyn,
Pan fo'r Morfa'n aur i gyd?

Ewch, fy mhlant, i wrando'r llinos,
Ond na thorrwch ar ei chân;
Ac na thorrwch galon llinos—
Na rowch dŷ y dlos ar dân :
O, fy mhlant, pe baech yn gwybod
Fel gall llinos garu'i nyth,
Gwn nad aech ag wy ohono,
Gwn na thynnech m'ono byth.

Mabinogi.

Ar blygain ym mis Ebrill
 Neu Fai,—ni wn pa un—
 A mi drwy'r dellt yn syllu,
 Rhwng trwmwsg a dihun,
 Mi welwn Rywun cynnar
 Yn rhodio yn yr ardd,—
 Mor deg a duwies ieuanc,
 Neu rian serch y bardd.

Pwy oedd i fod mor gynnar
 A hynny, tan y coed,
 Ni wyddwn,—pwy'n fwy gwisgi
 Nag Olwen ar ei throed;
 Am dani yr oedd mantell
 O bali gwyrdd hyd lawr;
 Ei gwallt fel cwmwl gwllithog,
 A'i llygad fel y wawr.

Edrychais arni'n rhodio
 Y llwybr ol a blaen,
 Gan fwrw'i thrysor disglaer,
 O'i chauad law ar daen:
 O dan y prennau safai,
 Gan gyffwrdd yn ei brys
 A'r gwiail, heb eu siglo,—
 Mor ysgafn oedd ei bys.

"Mi fynnaf wybod," meddwn,
 "Pwy yw y Rhywun hardd;"
 Agorais ddrws fy mwthyn—
 Agorais ddrws yr ardd:
 Bu yn edifar gennyf
 Fy myned gam o'r ty;
 Ni welais ddim ond bronfraith,
 Cyn canu'n trwsio'i blu.

Ond euthum hyd y rhodfa,
Lle cerddai ol a blaen,
Gan fwrw'i thrysor disglaer
O'i chauad law ar daen;
Ac yno gwelwn flagur
O felyn, gwyn, a rhudd;
Dau wely rhos a briall,
A dau o lygaid dydd.

A sefais lle y safai,
Gan gyffwrdd yn ei brys
A'r gwiall, heb eu siglo
O dan ei hysgafn fys;
Ac ar y prennau'r ydoedd,
Lle cyffyrddasai'r Rhith,
Ryw ddwylaw bychain gwyrddion
Yn dal y gawod wlith.

Isiw Dydd, Isiw Nos.

Ai hoff gennyf fyned, liw dydd,
I ddefiro'r ehedydd i ganu?
Ai hoff gennyf gyffro, liw dydd,
Y grug lle mae'i gymar yn nythu?
A welaist ti ef,
A'i aden yn wlithog yng nghanol y nef?
A glywaist ti'i gân,
Tra'r cwmwl oedd rhyngoch yn wyn fel gwlan?

Ai hoff gennyf fyned, liw nos,
I ddisgwyl y ser i dywynn?
Ai hoff gennyf wrando, liw nos?
Ar fydoedd soniarus yn canu?
A welaist ti Dduw,
O'r ser i'r ehedydd ym mhopeth byw?
A glywaist ti lef
Gyfriniol, yng nghan a distawrwydd y nef?

Perthi Mai.

WEDI mynd o blu yr eira,
Ereill ar y perthi gryn;
Onid ydynt fel breuddwydion
Maboed, gyda'u golud gwyn?

Tlws yw'r dail fel gwerdd phylacter,
Eddi gwisg o lian main;
Tlws yw'r blodau yn eu gwynder,
Fel o serch yn cuddio'r drain.

Hoff yw gennyf blodau'r perthi—
Onid oedd eu brodyr hyn
Yn blodeuo fis fy ngeni?
Blodyn Mai wyf fi fy hun.

1847


1848


1849

1850

1851


1852





“Aros, lanw, ar y draethell,
Paid a gvrando ar y gwynt.”

Telynegion y Mor.



Y Islanw.

I.

BETH yw'r llanw? Swyn y lloer
Ar y dyfnïor yn ymsymud;
Yntau'n caru'r Wen yn ol,
Ac yn ceisio ei anwylyd:
Unwaith, dwywaith yn y dydd,
Tyr ei galon ar y morfin;
Oni wyr y gwymon crin?
Oni wyr y gro a'r cregin?

Beth yw'r llanw i dydi,
Pan fo'n torri ar ei dywyn?
Nid yr un i bob gwrandawr
Yw'r gyfrinach yn yr ewyn:
Gwrendy un ar lais y llif—
Clyw y tonnau'n chwerthin, chwerthin:
Gwrendy'r llall, a beth a glyw?
Mabinogi nos y ddrycin!

II.

Chwery plentyn ger fy mron,
Marchog bychan un diwrnod;
Gerllaw eddi gwyn y don,
Cyfyd Gastell yn y tywod.

Crug o dywod, mur a thwr,
Caer o dywod i'w amddiffyn;
Pyrth o wymon llyfn y dwr—
O, gadernid Castell plentyn!

Casgl y cregin i'w decau—
 Oni chlyw y llanw'n dyfod?
 Her i'w Gastell gael ei gau
 Gan y môr, fel Cantre'r Gwaelod.

Ofer fu'r saernio hir,—
 Newid bryd wna'r arglwydd bychan;
 Myn i'r llanw ennill tir
 Ar y Castell wnaeth ei hunan.

Chwardd y marchog, cymer ffon,
 A thyr gamlas yn y draethell,
 Er mwyn gollwng llif y don,
 Fel Seithenyn, at ei Gastell.

Beth yw'r môr, y glasfor maith,—
 Beth yw llanw'r môr i blentyn?
 Onid tegan—tegan laith?
 Cymar chwarae rhwng dau gyntun!

III.

Nawnddydd arall, ger y môr,
 Eistedd brenin yn ei gadair;
 Corsen teyrnas yn ei law,
 Uwch ei arlais dalaith ddisglair:
 Chwardd y feisdon oddi draw,
 Chwardd yr haul ar emau'i goron;
 Yntau gan ei ddoethed chwardd—
 Chwardd y brenin yn ei galon.

Saif sidanog wyr ei lys
 Ar y traeth, gan sisial wrtho,—
 " Rhaid i'r llanw, pan y'th wel,
 Gilio'n ol cyn hamer llifo:

Nid yw'r môr yn fwy na'th ar,
 Nid yw Duw yn fwy na'n brenin,"—
 Yntau gan ei ddoethed chwardd—
 Chwardd y llanw yn y cregin.

Uwch a nes y del y llif,
 Tros y tywod, tros y gwymon;
 Ac ni chymer arno weld
 Corsen aur a gemau'r goron:
 Ebe'r brenin wrtho'i hun,—
 "Min y traeth a ddysg ddoethineb;
 Os mai ffals yw gwyr fy llys,
 Nid yw'r môr dderbyniwr wyneb."

Paid y sisial ar y traeth,
 Ond ni phaid y tonnau lifo,
 Hyd nes gylch y nawfed ton
 Odren'r brenin, gan ei leithio:
 "Gwelwch," ebe yntau'n ddoeth,
 Gan ostegu'r mwynder seithug,
 "Nid yw'r Llanw'n ofni teyrn,
 Nid yw mawredd ond dychymyg."

IV.

Geilw y llanw ym mhorth y môr,
 A chlywir *ohoian* ym mrig y dydd:
 "Codwch yr angor i fwrdd y llong,
 Gollyngwch garcharor y trai yn rhydd;
 Taenwch y lliain i gyd ar led,
 Mae'r awel, fy mechgyn, a'r llif o'n
 tu"—
 A dring yr angor i fwrdd y llong,
 A dacw'r baneri'n cyhwfan fry.

Cenir y clychau ym mhorth y môr,
 A mwy yr *ohoian* na glywwyd cynt :
 "Gwthiwch, fy mechgyn, y llong i'r llif,
 Ni erys y llanw, a theg yw'r gwynt;
 Acw'n y golwg mae'r dyinfor laes,
 Gwrandewch arno'n gwahodd, er gwaeth
 neu well :"

Ac etyb yr hwylian i dro y llyw;—
 Yfory, hwy fyddant y'mhell, y'mhell.

Geilw y llanw fel serch y môr,
 A'r llong a i'w ganlyn—briodferch
 hardd—

Gwynned ei delw yn nrych y dwfr,
 A chysgod yr alarch y'nghan y bardd :
 Cenwch yn iach i bererin y llif,
 I long y marsiandwr, ei llwyth a'i da;
 Mordwyed yn esmwyth, a doed yn ol
 O Ynys y Trysor a Thir yr Ia.

v.

Y'ngolwg Ynys Enlli
 Mae caban mab y môr;
 Bob dydd y gylch y llanw
 Y gro o flaen ei ddôr :
 Ac yn y caban hwnnw
 Mae Meinir ysgafn fron;
 Fel un o'r morforwynion,
 Neu dylwyth teg y don.

Y gwylaïn yw ei cheraint,
 Ar draethell ei hystad;
 Ond goreu gan ei chalon
 Yw cwch pysgota'i thad;

Aml dro yn ei mabandod
Y cwch fu iddi'n gryd ;
Y tonnau yn ei siglo,
A minnau'n wyn fy myd.

Liw nos, pan fwy' yn cychwyn
I gynnull maes y don,
Bydd Meinir ger y caban,
A'i grudd mor wen a'i bron :
Un ofnus yw ei chalon,
A chas yw ganddi'r trai ;
Nis gall, medd hi, ei garu,
Heb garu'i thad yn llai.

Ond pan fo'm cwch yn dychwel,
Liw dydd, at Graig y Llam,
Bydd Meinir yn fy nisgwyl,
A'i gwên fel gwên ei mham ;
A beth mor fwyn a'i chroeso,
Ar ol y cyfnos hir ?
Mae 'mherl yn caru'r llanw,
Mae'n dwyn ei thad i dir.

VI.

Cyffrous yw cri'r ystorm,
Wrth geuddor fy ystafell ;
A dyna dwrf y lluwch
Yn dymchwel ar y draethell.

Mae llawer mam a mun
Yn dweyd ei gweddi heno ;
Ond byddar yw y môr,
Ac nid yw'r gwynt yn gwrando.

Ni ddaeth y cwch yn ol,
 Cyn iddi godi'n awel;
 Ac ni eill serch gael hun,
 Na phryder fod yn dawel.

Pwy wyr y ffordd i dir,
 Heb loer na ser i'w dywys?
 A dwfn yw gwely'r môr,
 A'i draethau yn fradwrus!

Bydd llawer mam a mun
 Yfory ar y tywod,
 Yn holi llanw'r wawr
 Beth ddaeth o lanc a phriod.

Mae bara'n brin, yn brin,
 A rhaid i wyr anturio;
 Mae serch yn benyd oes,
 A rhaid i riai'n wylo.

A welir eto'r *cuoch*?
 A'i *astell* gyda'i enw?
 Ni wyr na mam na mun,—
 Mae'r ateb gan y llanw!

VII.

Aros, lanw, ar y draethell,
 Paid a gwrando ar y gwynt;
 Galw i'm cof yr wyt o hirbell
 Lawer cyfoed gerais gynt:
 Wele fi, a'r cychod segur,
 Eto'n sefyll ar dy fin;
 Ond pa le mae'm cyd-fordwywyr?
 Yn dy ddwfn, mewn mwynach hin!

Cof gan serch eu gweld yn cychwyn,
Gan fy nghyfarch dros dy li :
“Down yn ol y'mhen y flwyddyn,”—
Mordaith hir i'm golwg i ;
Ond ni ddaethant o fordwyo,
Er eu disgwyl lawer dydd ;
Llanw arall sy'n eu suo,
Yn eu pell welyau cudd !

Gorwedd maent o dan y tonnau,
Yn Nhawelfor mawr y De ;
Huno'n ddwfn y'mysg y perlau—
Llygad Duw sydd ar y lle :
Na wahardder im eu cofio,
Yn y ganig ysig hon,
Hyd nes delont adref eto,
Gyda'r llanw, dros y don !

VIII.

Gadewais wlad fy nhad a'm mam,
O hiraeth pur yn wysg fy nghefn ;
Edrychais ar ei glannau'n hir,
Rhag ofn na welwn hi drachefn :
Pan aeth o'm golwg, yr oedd un
Yn glaf o galon ar y bwrdd ;
Ble mae y gwr nas car ei wlad,
Pan fo ei long yn mynd i ffwydd ?

O'm hol yr oedd fy Ynys Wen,
A'r môr o'i chylch yn gân i gyd ;
O 'mlaen yr oedd yr Eidal deg,
Lle mae yr haf yn haf o hyd :
O'm hol yr oedd cyfandir byw—
Cyfandir bywyd newydd dyn ;
O 'mlaen yr oedd yr Aifft, mor hen
Nas gwyr yn iawn ei hoed ei hun !

Ond beth i mi, a'r galon glaf,
 Oedd tesni'r Aifft a'r Eidal dlos?
 Nid arnynt hwy yr oedd fy mryd,
 Y'ngoleu dydd, na breuddwyd nos :
 Fel Gwenffrwd a Goronwy Mon,
 Am Gymru yr hiraethwn i;
 Tan awyr las a haul y de,
 Ni cheisiwn decach bro na hi.

Cyrhaeddais lannau Cymru'n ol,
 O'r tiroedd hud, tros erwau llaith ;
 Yn ol heb golli dim o'm serch,
 Na cholli sill o'm hen, hen iaith :
 Mae'n werth troi'n alltud ambell dro,
 A mynd o Gymru fach y'mhell,
 Er mwyn cael dod i Gymru'n ol,
 A medru caru Cymru'n well.

IX.

Goris y llanw
 Mae dinas fud,
 Cantref y Gwaelod
 A'i lledrith dud ;
 Caerog brifddinas
 Y dwfn yw hon,
 Y brenin ei llys
 Yw Dylan eil Don

Neuaddau saphir
 Sydd iddi hi,
 A gerddi o ros
 A meillion y lli ;
 Hyd ei heolydd
 Y gwymon dardd,
 A iarlod y môr
 A'u rhianedd chwardd.

Ambell fin nos,
Ar berlewyg byd,
Clywir ei chlychau'n
Canu y'nghyd;
Clychau soniarus
Nas clybu dyn
Eu mwynach erioed,
Mewn llesmair na hun.

Glasnef y cwmwd
Yw'r môr uwch ben,
Cysgod y llongau'n
Gymylau'i nen;
Tlws yw yr ieuainc
A'r hen i gyd,
Y' Nghantref y Gwaelod
Y ddinas fud.

x.

Saif henuriad wrth y môr,
Neilltuedig broffwyd Ior,
Gyda gwallt mor wyn a'r gwllân,
Gyda llygaid fel y tân—
Ei ddoethineb fel ei ddydd,
A'i welediad fel ei ffydd.

Gwel y diluw dwfr ar daen,
Fel yn toi y môr o'i flaen;
Yntau ysgrifenna i lawr,
Megis un a wel y wawr—
"Fel y llanw, yn ei bryd,
Taen Cyfiawnder tros y byd."

Gwel y traethau'n mynd yn llai,
 Ac yn darfod—blant y trai;
 Yntau ysgrifenna i lawr,
 Megis un a wel y wawr—
 “Derfydd cyfundraethau dyn,
 A Gwirionedd fydd yn un.”

Cudd dylifiad gwyn y don
 Greithiau'r tywod ger ei fron;
 Yntau ysgrifenna i lawr,
 Megis un a wel y wawr—
 “Pan orffenno Duw Ei waith,
 Ni bydd ar Ei ddaear graith.”

Gwel y môr yn fôr o hedd,
 Yn llonyddu yn ei wedd;
 Yntau ysgrifenna i lawr,
 Megis un a wel y wawr—
 “Wedi i gamwedd fynd ar goll,
 Erys Cariad oll yn oll.”

XI.

Beth yw'r môr, ei drai a'i lanw—
 Creadigaeth gyntaf Duw?
 Onid dameg fawr yr oesau?
 Onid drych tragwyddol yw?
 Fel ei lesni dwfn, nas dichon
 Fod yn llonydd yn ei gryd,
 Onid ydyw bywyd, yntau,
 Yn dygyfor drwyddo i gyd?

Nid yw'r Ysbryd fu'n ymsymud
 Unwaith ar y dyfnder maith,
 Wedi llaesu Ei adenydd,
 Na gorffwyso yn Ei waith :

Nerth Ei fywyd annherfynol—
Perffaith rym Ei Berffaith Fryd,
Sydd yn creu yr anniddigrwydd
Deimlir ym mhob oes a byd.

Mae y Cread yn ymestyn
At berffeithrwydd, at y wawr;
Ac yn nhrai a llanw'r oesau,
Cwblheir Un Amcan mawr:
Creir nef a daear newydd,
Ac fel mellten rhwng y ddwy
Ehed angel, gan ddywedyd
Na bydd môr na llanw mwy.


Yr Hfon.

CAETHES y glannau,
A'i chri am ryddhad;
Dyna yw'r afon—
Merch fach yr eigion
Gaethgludwyd o'i gwlad.

Hirnos a gwawrddydd,
Ar dywod a gro,—
Ceidw ym mhoblle
Ei hwyneb at adre,
Fel rhian o'i bro.

Nid eill y marian
Arafu ei lli,
Na'r glasgoed ei llithio
Ond i orffwyso—
Y môr iddi hi.


Sia'n wylofus,
Ar lechwedd a dol;
Hiraeth sydd arni,
Ac nid yw'n ei golli
Nes cyrraedd yn ol.





“Bro y llus a'r llynnoedd,
Corlan y mynyddoedd,
Hawdd ei charu hi.”

Telynegion Cymru.



Y Porth Prydfferth.

(Ar ddechreu Canrif).

Ger y porth mae'th Fardd yn canu,—
“ Byw, fy nghenedl, fo dy lén;
Cenir it farddoniaeth newydd,
Cystal a'th farddoniaeth hen;
Cyfod dithau'n swm y delyn,
Fel y dydd pan wnaed dy frad;
Ni ddaw eto Forfa Rhuddlan
Ar dy ymdrechfeydd, fy ngwlad.”

Ger y porth mae'th Athraw'n galw,—
“ O fy nghenedl, canlyn fi;
Yng nghymanfa y cenhedloedd
Cedwir heddyw le i ti;
Golch dy lygad â goleuni—
Eiddot y meddylfyd mawr;
Bydd yn Roeg y ganrif newydd,
Wlad marchogion Arthur Fawr.”

Ger y porth mae'th Broffwyd yntau,
Gwrandu, Gymru, ar ei lef,—
“ Croes y Crist fo yn dy galon,
Cerdd, fy nghenedl, tua'r nef;
Gwell yw Dysg na golud lawer,
Gwell na'r ddau yw sanctaidd foes;
Glŷn, fy ngwlad, fel disgybl anwyl,
Ganrif arall wrth y Croes.”

Os wyt Gymro.

Os wyt Gymro hoff o'th wlad,
 A hoff o'th dadau dewrion,
 Cadw wyl er mwyn dy had—
 Ni waeth beth ddywed estron,—
 Gwisg genhinen yn dy gap,
 A gwisg hi yn dy galon.

Os wyt Gymro hoff o'th iaith,
 A hoff o'i bardd a'i phroffwyd;
 Heddyw twng y filled waith
 I'w chadw fel ei cadwyd:
 Boed yn amlaf ar dy fin,
 Boed olaf ar dy aelwyd.

Os wyt Gymro hoff o'th Sant,
 A hoff o'r cysegredig;
 Cadw wyl, er mwyn dy blant,
 I Ddewi, wyr Ceredig;—
 Cas yw'r gwr na char ei wlad,
 Boed dlotyn neu bendefig.

Gwyl a Gwaith.

Mae'n ddydd uchelwyl o Went i Fon,
Mae'r hen alawon ar fin a thant;
Ac is ei nennawr pob Cymro'n son
Am liw'r genhinen, am Ddewi Sant;
Ond nid gwladgarwch yw cynnal dydd,
Undydd mewn blwyddyn, i ganu cân—
Gwnewch Gymru heddyw'n lân ac yn rhydd,
A gwnewch hi yfory yn rhydd ac yn lân.

Mae'n ddydd uchelwyl, yn llawen ddydd,
Mewn tre' a phentref, pentref a thre';
Ac er yn llawer, un enw sydd
Ar fin y Gogledd, ar fin y De;
Ond nid gwladgarwch yw cynnal gwledd,
A dweyd "Fy nghenedl, fy iaith, fy
ngwlad,"—
Glanhewch y byrddau o'r gwin a'r medd,
Ac na foed wehelyth i Drioedd Brad.

Mae'n ddydd uchelwyl, a phawb yn son
Am liw'r genhinen, am Ddewi Sant;
Cenir alawon o Went i Fon,
Gan wyr a mamau, mamau a phlant;
Ond gwell gwladgarwch yw bod yn un
Mewn tref a phentre', pentre' a thref,—
Gwneyd Cymru'n burach iddi ei hun,
A'i gwneyd yn ffyddlonach i'w Sant a'r
Nef.

Goelcerthi'r Bannau.

(Hwyr yn Ionawr; goddeithio ar y mynydd-
oedd; hynny'n awgrymu'r gân).

DACW goelcerth ar Eryri,
Gwenfflam lygad yn y gwyll!
Chwiliwch, dadau, am y gwayw,
Chwiliwch, lanciau, am y cyll;
Doed a ddelo, rhaid yfory
Gadw erwau'n bro a'i braint.
Hawl gwladgarweh iyth yw gofyn
Gwaed y byw dros lwch y saint.

Dacw'r Moelwyn Mawr yn galw,
Dacw filam yn ateb filam!
Mae pob mynydd yn deimladwy,
Oni ddial Cymru'r cam?
Gaiff yr allfro ffordd yr elo
Gwympto'n cestyll hyd y llawr?
Beth a wnewch chwi yn yr ogof
Fintai segur Arthur Fawr?

Dacw goelcerth gwŷr Ardudwy
Fel yn troi y môr yn waed!
Iorwerth—Harri—pwy yw'r brenin?
Pa ddyhirweh ganddo wnaed?
A wnawn ni, a ni yn Gymry
Oddef hyn heb ei wahardd?
Drodd y delyn yn fradwrus,
Neu a wywodd llaw y bardd?

Dacw dafod gwahanedig
Eto ar yr Eifl yn Lleyn!
Rhaid i'n dwylaw fod yn llawer,
Rhaid i'n hergyd fod yn un;

Na foed neb yfory'n fradwr
Rhag i'w blant felldithio'r dydd;
Gwell na byw yn ddyinion arwerth,
Fyddai syrthio'n ddyinion rhydd.

Cynneu allan mae'r coelcerthi—
Llosgi'n llwch o un i un;
Ond ni chlywaf heno gyffro
Gwyr rhyfelgar ar ddihun,
Ac ni ddilyn hirllais udgorn
Neb i gasglu'r dewi ynghyd,
Mae'n goleuo ar ein Hanes,
Mae yn nosi ar y byd.

☉ cadwn Uchelwyl.

O CADWN uchelwyl
 A thelyn a thant;
 Boed annerch a cherdd
 Yn nhafodiaith y Sant.
Onđ cadwn o'r ddefod
Y cwpan a'r gwin,
A'r Cymro un diwrnod
A ffug ar ei fn.

O hyd y mae Dewi
 Yn dyfod am dro,
 I weled ei hil
 Ac i weled ei fro.
Mae'n dda ganddo genedl
Yn gwisgo ei gwyrdd,
Onđ gwelł ganddo genedl
Yn dilyn ei ffyrdd.

O cadwn uchelwyl,
 Mewn pentref a thref,
 Gan anfon un weddi
 Gymraeg hyd y nef,—
 "Boed Cymru y tadau
 Yn Gymru y plant;
 A Chymru gorwyrion
 Yn Gymru y Sant."

“Ochain y Clwyfawg.”

Moes ddafn o'r gostrel, gymrawd,
Mi wn mai marw'r wyf,
Gan fel y syrth bargodion
Fy nghalon o fy nghlwyf;
Mae 'ngwefus fel y marwor,
Ond heno, dan y lloer,
Hi fydd mor wen a'r barrug,
A'r lloergan arni'n oer.

Fy nghymrawd, fy hen gymrawd—
Cydymaith llawer cad
O gas at fradwyr Cymru,
O serch at lyw a gwlad—
Bydd un yn llai yfory
Yn ymladd gyda thi;
Ac un yn llai dros Gymru—
Beth ddaw ohoni hi?

Ond cyn dy ollwng, gymrawd,
A chyn i'm ganu'n iach,
Am byth!—gofynnaf gennyt
Ryw un gymwynas fach;
A gwn na wnei warafun
Cyn lleied peth—i un
Sy'n marw wrth ei ofyn,
Y'mhell o'i fro ei hun.

Fy nghymrawd, pan ei adref,
Ac adref hebof fi,
Dos, galw gyda'm Creirwy—
Ti wyddost pwy yw hi;
A dywed iti glywed
Ei henw ar fy min,
Ar ddwthwn ola' 'mywyd,
Gerllaw y farwol fin.

A dos a 'nghleddyf iddi—
 Y bylchog hanner llafn
 Sy'n weddill—dos a hwnnw,
 Ond sych y gwaed bob datn :
 Bydd Creirwy'n falch ohono,
 A gŵyr, pan wel y darn,
 Mai nid deheulaw llwfrddyn
 A gydiai yn ei garn.

A dywed imi syrthio,
 A 'ngwaed Cymreig yn llif.
 Lle'r oedd yr ornest boethaf,
 A'r meirw'n fwya'u rhif.
 A syrthio fel gwnaeth Arthur,
 A gwŷr yr hen Ford Gron.—
 Fy wyneb at y taner,
 A 'nghlwyfau ar fy mron.

O'r Deffroad.

“Bu Tom Ellis farw yn Ffrainc : ni fydd byth
farw yng Nghymru.”

ENNWCH imi o'r Deffroad
Ei ladmerydd ef,
Hwnnw safodd buraf drosto,
Safodd dros y nef ;
Ennwch ddewin a thywysog,
Ennwch lawer mwy—
Enwaf innau'r marw ieuanc
Oedd yn nes na hwy.

Tua'r Cynlas, bore-deimlodd
Enedigaeth-wawr
Cenedl burach Cymru fyddai
Yn ei feddwl mawr ;
Credodd yn y weledigaeth,
Credodd yn ei Ddau ;
Credodd Cymru'r ddau, a'i hunan,
A dechreuodd fyw.

Ysbryd tanllyd rhy angerddol
Oedd i losgi'n hir ;
Trwy'r Deffroad, cerdda allan
Gan oddeithio'r tir :
Bydd yn ynni ar y bryniau,
Rhyngddynt ym mhob cwm ;
Bydd ei enw'n ysbrydoliaeth
Mewn bythynod llwm.,

Y Deffroad, onid bywyd
Goreu Cynlas yw,
Gan un galon genedlaethol
Eto'n cael ei fyw ?

Onid yw ei ysbryd trwyddo
Gyda ni yn awr,
Yn y wlad yn ysgrifennu
Ei farddoniaeth fawr?

Hawdd yw wyllo'n ngwydd ei aberth—
Hawdd gan wlad a thref;
Hawddach gweithio wedi aros
Ger ei allor ef :
Collodd Cymru ail Lywelyn,
Bellach, hi a fedd
Ynnot ti, O Gefn y Ddwysarn,
Hoffach Gefn y Bedd.

Cymru'r Diwygiad.

Ardaloedd ar eu deulin!—beth yw hyn?

Gobaith oes ddilychwin;
Eneidiau'n troi: Duw yn trin
Agoriad calon gwerin.

Bedydd Duw fedyddiodd Gymru,
Pentecost yr Ysbryd Glan;
Nid oes ardal heb ei hallor,
Nid oes allor heb ei thân;
Cwmwl goleu gweddnewidiad
A gysgododd dros y wlad—
Gwelwyd dyn i Dduw yn blentyn,
Gwelwyd Duw i ddyn yn Dad.

Clybu cenedl farn a chariad
Yn cynniwair trwy ei bro;
Ysodd tân o'r nef Gwm Rhondda,
Oedd a'i galon fel y glo;
Mynwy ddu—Gomorra Cymru—
Gwyrth o ras ar honno wnaed;
“Cadd gydwylwedd wedi'i channu'n
Ddisglaer yn y Dwyfol waed.”

Un yw Cymru'n nghwlmw gweddi,
Un, er gwahaniaethau oes;
Gyda'r nef a chyda'i hunan
Fe'i cymodwyd wrth y Groes;
Nid oes son am Wyddfa mwyach—
Onid ydyw Calfari
Wedi mynd goruwch y bryniau
Pennaf yn ei golwg hi?

Gwnaed o Gymru berth yn llosgi,
 Heb ei difa gan y tân;
 Ac yn fflam ei phuredigaeth,
 Cafodd ddawn a gwefus lân :
 Hen emynnau'r "gwaed" a'r "diolch"—
 Maent i gyd ar lafar gwlad;
 "Rhai fu'n fudion sy'n clodfori
 Duw, am iachawdwriaeth rad."

Nid oes ardal heb ei hallor,
 Nid oes allor heb ei thân—
 Gyda'i dysg y cafodd Cymru
 Bentecost yr Ysbryd Glan :
 Os mai marw'i thywysogion,
 Byw ei Phentywysog hi—
 "Dyma gariad fel y moroedd,
 Tosturiaethau fel y lli."

“Paradwys y Bardd.”

CYMRU fach i mi—
Bro y llus a'r llynnoedd,
Corlan y mynyddoedd,
Hawdd ei charu hi.

Son am diroedd hud—
Tecach na'r rhai hynny
Ydyw erwau Cymru,
Gwell na broydd byd.

Yn ei hanes hen
Enwir mil o arwyr,
Llin marchogion Arthur,
Cedyrn cad a llen.


Mag rai ereill mwy—
Gwyr fo'n olud daear,
Na bu'n llys Gwenhwyfar
Hafal iddynt hwy.

Cymru fach i mi—
Cartre crwth a thelyn,
Cysegr salm ac emyn,
Porth y nef yw hi.

CAERNARFON:

Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig
(Cyl.).

o bog 7



0.6097.

